



Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Cynnwys	Tudalen
Rhagair y Cadeirydd	3
Crynodeb Gweithredol	3
Cenhadaeth Menter Iaith Maelor	4
Pennod 1 - Mudiadau a Phartneriaethau	4
Pennod 2 - Rhieni Ifanc	6
Pennod 3 - Plant	6
Pennod 4 - Hyder Ieithyddol	7
Pennod 5 - Pobl Ifanc	7
Pennod 6 - Sector Breifat	8
Pennod 7 - Marchnata a Chyhoeddusrwydd	8
Pennod 8 - Y Strwythur Rheoli a Staffio	9
Pennod 9 - Gweithredu, Monitro ac Adolygu	10
Pennod 10 – Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	12

Rhagair y Cadeirydd

Braf gweld bod y gwaith o adeiladu ar lwyddiant flwyddyn ddiwethaf wedi parhau ac ein bod wedi llwyddo i gynnal y strwythur staffio, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion mewn perthynas â hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg yn y sir. Mae llwyddiant y bartneriaeth weithredol rhyngom a Menter Iaith Sir y Fflint ynghyd a'r Prosiect CIW gyda'r Urdd a'r Cyngor Sir ar gyfer ieuencid y sir yn atgyfnerthu ein blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Rwy'n falch iawn o gyhoeddi bod Bwrdd yr Iaith wedi cydnabod yr holl waith datblygu a'r cynnydd amlwg yn weithgareddau'r Fenter drwy gynyddu'r dyraniad grant am y flwyddyn 2011 - 12. Golyga hyn ein bod mewn gwell sefyllfa i fedru cynnig gwasanaeth mwy cyflawn i gymunedau'r sir ac i gefnogi ein prif bartneriaid yn eu gwaith o hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg.

Diolch i aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu gwaith ac am roi mor hael o'u hamser a'u hadnoddau, a diolch i bawb o'n partneriaid am eu llafur, eu gweledigaeth a'u hymroddiad

Trefor Jones-Morris

Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd Menter Iaith Maelor yn 1999 gan wirfoddolwyr lleol er mwyn gwireddu dyheadau pobl leol am fudiad cymunedol a fyddai'n hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cyrraedd ei photensial.

Mae'r Fenter wedi ei chofrestru fel cwmni cyfyngedig dan warant ers 1af Awst 2006 ac nid yw'n gweithredu er mwyn creu elw. Mae gan y Fenter Bwyllgor Rheoli profiadol, brwdfrydig

ac ymroddgar sydd wedi eu dethol o'r aelodaeth ehangach ac sydd yn meddu ar arbenigedd eang o fyd busnes, sector wirfoddol, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Croesewir unrhyw un sy'n cytuno a nodau ac amcanion y Fenter i ddod yn aelod. Ei phrif swyddogaeth yw datblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Sir Wrecsam. Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw prif gyllidwyr y Fenter ac mae hi hefyd yn ogystal wedi llwyddo i ddenu nawdd yn flynyddol gan Gyngor Sir Wrecsam at gostau staffio. Sicrhawyd nawdd ychwanegol o'r Rhaglen Datblygu Wledig a ariannir yn rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu Prosiect Ymchwil a Datblygu'r Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2008-11. Lleolir swyddfa'r Fenter yn Nhŷ AVOW - adeilad Cyngor Gwirfoddol Wrecsam yng nghanol dref Wrecsam. Asesir gwaith y Fenter yn flynyddol gan Fwrdd yr Iaith yn unol â thargedau penodol a gytunwyd rhwng Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Maelor a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r targedau yn cyd-fynd a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Fenter am y cyfnod 2010-13 yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelodau, budd-ddeiliaid a phartneriaid yn 2009.

Cenhadaeth Menter Iaith Maelor

Gwaith y Fenter yw ehangu, hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir Wrecsam.

Bydd y Fenter yn cyflawni hyn drwy:

- Drefnu gweithgareddau fydd yn rhoi cyfle i rai o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Dod a mudiadau at ei gilydd i godi proffil yr iaith Gymraeg
- Annog cyrff cyhoeddus a busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, a chymell Cymry Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r gwasanaethau
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth am weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Wrecsam.
-

Mae'r ddogfen yma yn adroddiad ar waith y Fenter ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2011.

Pennod 1: Mudiadau a Phartneriaethau

Mae'r Fenter yn parhau i feithrin perthynas a datblygu cysylltiadau gyda nifer o bartneriaid yn y sector gyhoeddus a'r sector wirfoddol er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r **Fforwm Sirol** o bartneriaid iaith y Sir yn cyfarfod yn chwarterol, gyda'r Fenter yn cydlynu a chadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r partneriaid wedi llwyddo i gydweithio yn effeithiol i rannu ymarfer da a cheisio dylanwadu ar lefel strategol er mwyn newid arferion a chynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y sector wirfoddol ar sector gyhoeddus. Mae aelodaeth y Fforwm wedi cynyddu mewn niferodd yn ystod y cyfnod drwy gyfuno gyda Fforwm Sirol Sir y Fflint gyda'r mudiadau canlynol yn aelodau: - **Menter Iaith Sir y Fflint, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Menter a Busnes, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Popeth Cymraeg, Prifysgol Cymru Bangor, Coleg Glannau Dyfrdwy, Canolfan Cymraeg i Oedolion, Cadwyn Clwyd, Estyn Llaw, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Coleg Glyndŵr a Choleg Iâl, Coleg Harlech a Chlybiau Gwawr.**

Sicrhaodd y Fforwm nawdd gan **Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** i gyflogi **Swyddog Ieuencid** ar y cyd gyda'r **Urdd a'r Cyngor Sir**. Mae gan y swyddog gyfrifoldeb am ddatblygu'r a chynyddu'r ddarpariaeth yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc y sir.

Derbyniodd Menter Iaith Maelor nawdd o **£66,000** ar gyfer gweithredu prosiect **Datblygu'r Iaith Gymraeg** yng nghymunedau gwledig y Sir rhwng 2008-11, a ariannir yn rhannol gan yr **Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru**. Mae'r nawdd wedi galluogi'r Fenter i gyflogi **Swyddog Prosiect Ymchwil a Datblygu'r Iaith Gymraeg** sydd wedi trefnu cyfres o **ddigwyddiadau a gweithgareddau** er mwyn **codi ymwybyddiaeth** o'r iaith Gymraeg a **diwylliant** cyfoethog y sir. Efen bwysig arall o'r prosiect oedd cynnal astudiaeth ar **Broffil Ieithyddol** y Sir er mwyn nodi'r **gwasanaethau a'r mudiadau Cymraeg** sy'n gweithredu yn ardaloedd gwledig y Sir.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda phartneriaid, budd-ddeiliaid a chynrychiolwyr o'r gymuned, mae'r Fenter erbyn hyn yn gweithredu ei **Chynllun Corfforaethol a Rhaglen Weithredu** sydd yn nodi amcanion strategol y Fenter ar gyfer y cyfnod **2010 -13**.

Mae'r Fenter yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi grwpiau cymunedol sydd yn gweithredu yn wirfoddol er mwyn hyrwyddo iaith a diwylliant Wrecsam.

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu **perthynas** newydd gyda chyrrff a mudiadau amrywiol, megis **Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd, Cynllun Iaith a Chwarae a Chyngor Lleol Gwirfoddol Wrecsam** sydd am fynd ati i gynyddu'r defnydd o'r **iaith Gymraeg**. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith yma yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i gefnogi mudiadau a sefydliadau lleol drwy gynnig gwasanaeth cyfeirio at **Linell Gyswilt** Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaethau **Cyfieithu**.

Mae'r Fenter wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r **Eisteddfod Genedlaethol** drwy gynnig cymorth gweinyddol i drefnu gweithgareddau hyrwyddo'r Eisteddfod yn Wrecsam. Cynhaliwyd **Brecwast Busnes** yng ngwesty'r Ramada, Wrecsam a Cross Lanes, Marchwiel gyda dros 100 o fusnesau yn bresennol. Cydweithredodd y Fenter hefyd gyda'r trefniadau ar gyfer **seminar sector lletygarwch a thwristiaeth** yng Ngholeg Iâl.

Pennod 2: Rhieni Ifanc

Mae'r Fenter am gynorthwyo i ddwyn perswâd ar rieni ifanc i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf er mwyn cynyddu'r canran o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mi fyddwn yn sicrhau cyfleoedd i deuluoedd ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol drwy gynnal gweithgareddau cyffroes a chyfoes er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

Mae'r Fenter wedi gweithio yn agos iawn gyda Mudiad Ysgolion Meithrin dros y flwyddyn ddiwethaf i ddarparu gweithgareddau i rieni ifanc yn benodol. Yn ystod haf 2010 darparwyd **Prosiect Teuluoedd** oedd yn targedu rhieni oedd wedi derbyn addysg cyfrwng y Gymraeg ond erbyn hyn wedi colli eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Roedd y prosiect yn llwyddiannus dros ben gydag un o'r rhieni yn llwyddo i gael gwaith fel arweinydd Cylch Meithrin, wedi'r prosiect ddod i ben. Cafwyd dilyniant i'r prosiect yma ym mis Mawrth gyda deg o rieni a'u plant yn bresennol yn y gweithgaredd.

Yn ychwanegol bu i'r Fenter drefnu **sesiynau gloywi iaith** ar gyfer y rhieni oedd eisiau cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. Bu i ddeg rhiant ac arweinyddion Cylchoedd Ysgolion Meithrin gwblhau'r sesiynau oedd wedi eu hachredu gan Brifysgol Glyndŵr.

Cynhaliodd y Fenter stondin yng **Ngŵyl Mudiad Ysgolion Meithrin** yn Ysgol I.D. Hooson ac roedd yn gyfle da i'r Swyddog Datblygu ddod i gyswllt gyda rhieni ifanc a dosbarthu nwyddau a gwybodaeth oedd yn pwysleisio manteision dwyieithrwydd a'r cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg sydd ar gael iddynt.

Mae'r Swyddog Datblygu wedi meithrin perthynas waith da gyda Swyddog **TWF** a bwriedir cyd weithio yn agos er mwyn cyflwyno a dosbarthu gwybodaeth i rieni ar fanteision dwyieithrwydd i fabanod a phlant bach.

Bu i'r Fenter gynorthwyo yn natblygiad sefydlu cangen **RhAG** yn Wrecsam, gyda'r aelodau wedi bod yn allweddol yn sicrhau datblygiad Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yng Ngwersyllt.

Pennod 3: Plant

Mae'r Fenter am gydweithio gyda sefydliadau addysg a gofal plant i sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael i holl blant y sir o fewn eu cymunedau lleol. Mi fydd y Fenter yn sicrhau cyfleoedd iddynt gael defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol er mwyn normaleiddio defnydd o'r iaith yn gymdeithasol.

Bu i'r Fenter ddarparu **sesiynau ymwybyddiaeth iaith** i 300 o blant yn ystod diwrnod codi ymwybyddiaeth ieithoedd Ewropeaidd. Roedd yna hefyd gyfle i'r plant greu baneri gyda symbolau o luniau oedd yn cynrychioli Cymru a Chymreictod.

Cynhaliwyd standin yn ystod ddathliad **40 mlynedd o efeillio Wrecsam gyda'r dref Almaeneg Märkischer Kreis**. Roedd yn gyfle i ddosbarthu gwybodaeth am weithgareddau a gwaith y Fenter. Darparwyd sesiynau celf a chreffft ble ddaeth oddeutu 50 o blant i ddylunio baneri gyda lluniau oedd yn cynrychioli Cymru.

Mae Swyddog CIW wedi sefydlu **Grŵp Theatr** ar gyfer plant ysgolion cynradd Wrecsam. Yr actor, Steffan Parry sydd yn arwain y sesiynau a'r gobaith yw y bydd y plant yn cael perfformio sgets ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.

Mae'r **is adran** ar fin ail gychwyn yn Rhos ar ôl cyfnod o seibiant. Fe fydd yr adran yn cyfarfod yn wythnosol a bydd yn gyfle i blant gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pennod 4: Dysgwyr – Hyder Ieithyddol

Un o brif amcanion y Fenter yw **cynorthwyo i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol**.

Mae'r Rheolwr a'r Swyddog Datblygu yn aelodau o **Banel Dysgu Anffurfiol Wrecsam**.

Bu i'r Fenter gyd weithio gyda Choleg Iâl i drefnu **Noson Hwyl I'r Teulu** ym Mhlas Pentwyn, Coedpoeth. Roedd dros 120 o bobl a phlant yn bresennol ar y noson gyda'r plant yn cael eu diddanu gan gonsuriwr ac roedd gemau ac adloniant ar gyfer pob oed. Roedd yn gyfle gwych i ddysgwyr hen a newydd gymdeithasu ac ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol.

Pennod 5: Pobl Ifanc

Mae'r Fenter mewn partneriaeth a'r Urdd a'r Cyngor Sir wedi parhau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith yr ifanc ac yn edrych i greu cyfleodd i bobl ifanc gael defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Comisiynodd y Fenter yr animeiddiwr enwog Deiniol Morris (Y Gogs) i ddarparu **gweithdai** animeiddio myfyrwyr Coleg Iâl a Phrifysgol Glyndŵr oedd yn astudio celf ac animeiddio. Roedd yn gyfle i'r bobl ifanc glywed a siarad yr iaith Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol.

Bu i'r Fenter gomisiynu cwmni Camalz Media i ddarparu **gweithdai ffilm** ar gyfer 70 o bobl ifanc gwledig Wrecsam. Roedd yn gyfle i'r bobl ifanc yn dysgu a datblygu sgiliau cynhyrchu ffilmau ac ysgrifennu sgriptiau. Gweithiwyd gyda 6 grŵp o bobl ifanc a bu i bob grŵp gynhyrchu ffilm yn seiliedig ar gerddi Cymraeg cyfoes. Cynhaliwyd **noson wobrwyo** yn y Stiwt, Rhos i ddangos y ffilmau am y tro cyntaf gyda thua 300 o bobl yn bresennol ar y noson i weld pa ffilm fyddai'n ennill tlws Gweithdai ffilm ieuencid Wrecsam. Cafwyd adloniant ar y noson gan bobl ifanc lleol,

Cyfrwywyd y tlws gan y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones a beirniaid y noson oedd Aled Lewis Evans, Steffan Parry ac Esyllt Tudur.

Bu i'r Fenter mewn cyd weithrediad gyda Mentrau Iaith Sir Ddinbych a Sir Y Fflint gynnal gig **Y Ffin Fach** yn Wrecsam i ddathlu cerddoriaeth Cymraeg a hyrwyddo'r sin roc Gymraeg. Cafwyd cystadleuaeth Brwydr y Bandiau ar ddechrau'r noson a bu i'r band enwog Masters in France gloi'r noson.

Cynhaliwyd gweithdy lyrigs Ed Holden i helpu cerddorion ifanc i ysgrifennu caneuon Cymraeg, ac i helpu pobl ifanc oedd gyda chaneuon Saesneg i gyfieithu'r caneuon i'r Gymraeg.

Cydweithredodd y Fenter gyda'r **Urdd a Menter Iaith Maelor** unwaith eto eleni i gynnal cystadleuaeth dalent "**Talent FfM**" ar gyfer pobl ifanc ym Mis Mawrth 2011. Roedd 12 o bobl ifanc yn cystadlu o siroedd Wrecsam, Fflint, Dinbych a Chonwy o flaen cynulleidfa sylweddol yng Ngwesty'r Springfield, Treffynnon. Beirniaid y noson oedd Elin Fflur, Ed Holden a Tudur Owen.

Bu'r Swyddog Ieuenctid gydweithio gyda disgyblion **Ysgol Morgan Llwyd** i sefydlu **Fforwm Ieuenctid** yn yr ysgol, gyda bwriad o ddenu rhagor o bobl ifanc i'r Fforwm er mwyn sicrhau cyfranogiad ehangach ganddynt cyn ymweliad yr **Eisteddfod Genedlaethol** i'r sir.

Cafodd 12 o bobl ifanc o **Ysgol Morgan Llwyd** gyfle i ymweld â **Chanolfan Nantyr yn Nyffryn Ceiriog** yn rhwng 18-20 o Chwefror.

Bu i'r Fenter gynnal adloniant yn **rali Ffermwyr Ifanc** yn Owertyn drwy ariannu DJ Cymraeg i chwarae cerddoriaeth Gymraeg mewn Gig ar gyfer 150 o bobl ifanc

Pennod 6: Sector Breifat

Cydnabyddai'r Fenter fod gan gwmnïau a busnesau rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ymdreiddio i'n bywydau bob dydd. Mae'r Fenter wedi parhau i gydweithio gydag Uned Sector Breifat, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i geisio cyfleodd newydd i weithio gyda chwmnïau lleol a'u perswadio i ddefnyddio'r Gymraeg

Derbyniodd y Fenter gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu **Prosiect Dwyieithrwydd mewn Busnes** a fydd yn weithredol o **2011-2013**. Mae £234,000 o nawdd wedi ei ddyrannu ar gyfer gweithredu'r prosiect dros y cyfnod, er mwyn darparu cymorth a chefnogaeth ariannol i fusnesau bach yn yr ardaloedd gwledig i ddatblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y busnes.

Pennod 7: Marchnata a Chyhoeddusrwydd Digwyddiadau

Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu proffil y Fenter yn ystod cyfnod yr adroddiad er mwyn creu **delwedd gyfoes a deniadol** o weithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sir.

Rydym wedi llwyddo i feithrin perthynas agos gyda'r **wasg** leol, a'r **cyfryngau** er mwyn creu agwedd bositif at yr iaith Gymraeg, hyn oll mewn partneriaeth gydag aelodau'r Fforwm Iaith Sirol a phartneriaid eraill. Sicrhawyd cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod gydag erthyglau rheolaidd yn ymddangos yn y Papurau Bro leol, **Y Cymro**, a'r **Wrexham Leader** ynghyd a chael darlledu cyfres o **raglenni** ar orsaf radio **Calon FfM**. Rydym yn gwneud defnydd helaeth o safle "Facebook" y Fenter er mwyn hyrwyddo ein digwyddiadau i bobl ifanc.

Pennod 8: Y Strwythur Rheoli a Staffio

Mae'r Fenter wedi llwyddo i weithredu'r strwythur staffio newydd er mwyn galluogi iddi gyflawni ei nodau a'u hamcanion yn y tymor byr i ganolig. Cyflogwyd **Rheolwr**- rhan amser a **Swyddog Busnes** - rhan amser drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda **Menter Iaith Sir y Fflint** hyd at 31 Mawrth 2011. Apwyntiwyd **Swyddog Ieuenctid** ym Mis Mai 2009 ar gytundeb 3 mlynedd a chyllidir y swydd yma yn rhannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Yr Urdd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cyflogir **Swyddog Datblygu Ymchwil i'r Gymraeg** - rhan amser o'r cynllun Rhaglen Datblygu Wledig Wrecsam a ariannir yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Bwriedir penodi **Swyddog Datblygu Cymunedol** – llawn amser o fis Ebrill 2011.

Dyma'r rhestr o **Gyfarwyddwyr** a **Swyddogion** Menter Iaith Maelor yn ystod cyfnod yr Adroddiad:

Cyfarwyddwyr:-

Cadeirydd – Trefor Jones-Morris

Trysorydd - David M James

Ysgrifennydd y Cwmni - Catherine Eleri Lewis

Alun J Emanuel

L Gwenan Emanuel

Ann LI Hughes

Gareth R Williams

Nerys Jackson

Bob Jones

John Pritchard – ymddiswyddodd Ionawr 2011

Y Parchedig Tom Wright

Staff

Gwawr Cordiner - Rheolwr (rhan amser)

Rhian Davies - Swyddog Busnes (rhan amser)

Ellie Pritchard - Swyddog Busnes (rhan amser) – ymadael Ionawr 2011

Michelle Murphy - Swyddog Datblygu ac Ymchwil i'r Iaith Gymraeg (rhan-amser – ymadael Mai 2010)

Sara Mair Jones - Swyddog Ieuenctid (llawn amser)

Nia Meleri - Swyddog Ieuenctid (llawn amser dros gyfnod mamolaeth - penodwyd Mawrth 2010 - ymadael Medi 2010)

Owain Dafydd- Swyddog Ieuenctid (llawn amser dros gyfnod mamolaeth- penodwyd Medi 2010 – ymadael Rhagfyr 2010)

Siân Edwards - Swyddog Datblygu Cymunedol a Swyddog Ymchwil a Datblygu'r Gymraeg (rhan amser) - penodwyd Mawrth 2010 a Mehefin 2010.

Pennod 9: Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Gweithredi'r **Cynllun Corfforaethol** a'r **Rhaglen Weithredu** yn dilyn mabwysiadu'r ddogfen yn 2009. Sicrhawyd nawdd o £31,518 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11 yn dilyn ein cais i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Medi 2009. Cytunwyd ar y **Targedau** canlynol gyda'r Bwrdd ac fe ddarparwyd 3 adroddiad cynnydd iddynt yn ystod y cyfnod:-

Targedau
Cydweithio â Phartneriaid y Bwrdd sy'n cynnwys, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Merched y Wawr, Papurau Bro, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Estyn Llaw, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Cerdd Gymunedol Cymru, Gwobr Dug Caeredin trwy gynnal cyfarfodydd er mwyn rhannu gwybodaeth, cynllunio a chydweithio a'r prosiectau fel bo'r galw.
Parhau i arwain / mynychu Fforwm Sirol gan sicrhau bod hyd at 4 cyfarfod yn digwydd erbyn Mawrth 2011.
Cydweithio â'r Bwrdd i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd (lle bo'n berthnasol) i gynnwys, Marchnata Addysg Gymraeg, Twf, Llinell Gyswllt â'r Gymraeg / Gwaith Cartref, Mae Gen ti Ddewis, Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc, Iaith Gwaith, Cefnogi'r Gymraeg ac eraill fel bo'r galw. (Dylid nodi unrhyw gydweithio a wneir wrth hyrwyddo'r ymgyrchoedd a'r gwasanaethau hyn).
Mynychu hyfforddiant a gweithdai a gydlynir gan y Bwrdd yn ôl y galw. (Dylid nodi pa weithdai / hyfforddiant a fynychwyd ynghyd â dyddiadau).
Cynnal stondin yn hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd mewn 6 o ddigwyddiadau, a chynnal sgwrs er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (i gynnwys un digwyddiad sy'n arferol ddi-gymraeg). Cynnal sgwrs gyda 30 o rieni erbyn Mehefin, 35 o rieni erbyn Rhagfyr a 35 o rieni erbyn Mawrth 2011.

<p>Mewn partneriaeth a sefydliadau megis Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Genesis. Cynnal 4 o ddiwyddiadau i rieni i godi eu hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg i deuluoedd, y cyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael, a'r adnoddau sydd ar gael. Nodir cyfleoedd i gydweithio erbyn Medi 2010.</p>
<p>Cynnal cyfarfod gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i deuluoedd y Sir er mwyn adnabod cyfleoedd i gydweithio erbyn Mawrth 2011.</p>
<p>Cynnal 4 o weithdai cymunedol cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir gyda'r nod o gynig cyfleoedd i 24 o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. 2 o weithdai i gymryd lle erbyn Mehefin 2010 a 2 i gymryd lle erbyn Rhagfyr 2010</p>
<p>Cynnal 2 o ddiwyddiadau cymdeithasol Cymraeg (gyda chymorth pobl ifanc) o fewn y Sir. 150 o bobl ifanc i fynychu'r digwyddiadau. 1 o ddiwyddiadau i gymryd lle erbyn Mehefin 2010 a 1 i gymryd lle erbyn Rhagfyr 2010.</p>
<p>Prosiect Cefnogi Arferion Iaith - Cydweithio â'r Bwrdd i gefnogi gweithrediad y prosiect drwy• fynychu cyfarfodydd cynllunio'r prosiect gyda'r Bwrdd a phartneriaid eraill (bydd hyn yn cynnwys y diwrnod hyfforddiant ysgolion a'r diwrnod gwerthuso)• gynig cefnogaeth ymarferol i ddisgyblion y prosiect i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth wrth gynllunio a chynnal y gweithgareddau - parhau i ddatblygu sgiliau'r disgyblion i gydweithio ar brosiectau'r Fenter tu allan i'r prosiect hwn</p>
<p>Cydweithio â threfnwyr Taith 2010 C2 Radio Cymru drwy: Gynnal un gweithgaredd cymunedol fel rhan o'r daith a sicrhau y cyrhaeddir y targedau a osodir gan drefnwyr y daith erbyn 31 Hydref 2010•Gynig cyfleoedd pellach i fandiau sy'n cael eu sefydlu yn ystod y daith i berfformio erbyn 31 Mawrth 2011</p>
<p>Cydweithio gyda Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gan sicrhau bod aelod o Fforwm Iaith y Sir yn aelod o'r Bartneriaeth ac yn adrodd yn ôl ymhob cyfarfod o'r Fforwm.</p>
<p>Cydweithio â 1 o glybiau chwaraeon (megis Clwb Pêl droed Wrecsam) i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy:• Gynnal arolwg o'r defnydd presennol o'r Gymraeg o fewn y clwb erbyn 30 Mehefin 2010• Adnabod meysydd penodol i'w datblygu o fewn y clwb erbyn 30 Mehefin 2010• Datblygu o leiaf un arfer o'r newydd fydd yn arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y clwb erbyn Mawrth 2011.</p>
<p>Datblygu perthynas gyda'r Cyngor Sir drwy gynnal cyfarfodydd gyda swyddogion ac / neu aelodau etholedig i drafod cydweithio ar y meysydd canlynol:-Strategaethau Cymunedol - Cynnal o leiaf un cyfarfod gyda swyddog sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu'r strategaeth gymunedol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y broses. Prif ffrydio'r Gymraeg - Cynnal o leiaf 2 gyfarfod gyda Swyddog Iaith y Cyngor er mwyn ystyried datblygu prosiect neu ymgyrchoedd penodol ar y cyd</p>
<p>Adnabod cymuned sydd a thros 60% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg gan ystyried cynnal hyd ac 3 o weithgareddau neu ymgyrchoedd i annog pobl i gymryd chyfrifoldeb dros ddyfodol y Gymraeg yn y gymuned hynny.</p>

Sicrhawyd grant gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** ar gyfer cyflogi **Swyddog Ieuenticid CIW** hyd at 31 Awst 2011 . Llwyddodd y Fenter i ddenu nawdd ychwanegol gwerth £33,000 o'r **Rhaglen Ddatblygu Wledig** ym mis Mehefin 2010 ar gyfer gweithredu rhagor o weithgareddau'r Prosiect Datblygu'r Iaith Gymraeg.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr 4 gwaith rhwng Mis Ebrill 2010 a Mis Mawrth 2011

Pennod 10: Crynodeb o'r Datganiad Ariannol ar 31 Mawrth 2010

Gwybodaeth am yr uchod ar gael wrth gysylltu a swyddfa Menter Iaith Maelor